*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Mawrth, 17eg Tachwedd, 2020 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes Y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 13 Tachwedd 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020 yn gofnod cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

## 3. BREXIT

Derbyn adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n rhannu'r manylion diweddaraf ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Cyngor er mwyn paratoi ar gyfer Brexit. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r meysydd sydd wedi'u nodi fel y meysydd hynny sydd â'r risg/effaith uchaf posibl.

**(Tudalennau 13 - 24)**

## 4. ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR (CHWARTER 2)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi crynodeb i'r aelodau am gyflawniad y Cyngor yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2020), mewn perthynas â materion ariannol a gweithredol.

**(Tudalennau 25 - 46)**

## 5. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2021-22

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n gosod yn ffurfiol Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**(Tudalennau 47 - 52)**

## 6. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019–20

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW') i'r Cyngor yma ar gyfer 2019-2020.

**(Tudalennau 53 - 74)**

## 7. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL YR ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â chynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r newidiadau arfaethedig i Restr Rheoliad 123. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y camau cyn y cam craffu sydd wedi'u cyflawni gan y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

**(Tudalennau 75 - 96)**

## 8. Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL - STRATEGAETH BUDDSODDI MEWN ASEDAU'R PRIFFYRDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet mewn perthynas â Rhaglen Gyfalaf y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol. Cafodd y rhaglen yma'i chymeradwyo ar 6 Mai 2020 ac o ganlyniad i'r adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ar 24 Medi 2020, mae'r adroddiad yma'n cynnig ychwanegu cynlluniau cynnal a chadw ar gyfer ffyrdd cerbydau a'r llwybrau troed at y cynlluniau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.

**(Tudalennau 97 - 102)**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019-20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno'r drafft cyntaf o Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn rhoi cyfle i drafod yr adroddiad cyn i'r cynnwys gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**(Tudalennau 103 - 156)**

**10. BWRDD DIOGELU CWM TAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhannu cynnwys Adroddiad Blynyddol 2019/20 Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg â'r Cabinet.

**(Tudalennau 157 - 214)**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF MORGANNWG 2019-20**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2019/20 i Lywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 215 - 236)**

**12. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"That the press and public be excluded from the meeting under Section 100A(4) of the Local Government Act (as amended) for the following items of business on the grounds that it involves the likely disclosure of the exempt information as defined in paragraph 14 of Part 4 of the Schedule 12A of the Act".

**13. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED - CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n rhoi manylion am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i ddod.

**Adroddiad i ddilyn.**

**14. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:**
Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd  M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion:**
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu